

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD IONAWR 2015




Yn ystod y misoedd diwethaf bu disgyblion yr Ysgol yn brysur yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau codi arain. Cyflwynwyd sic o £300 i Ward Alaw a derbyniwyd llythyr i ddiolch gan gynrychiolydd o Apêl Cancr a Haemotoleg Alaw.

Llwyddwyd i godi £300 hefyd ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru. Daeth cynrychiolydd i dderbyn y sic ar eu rhan a chyflwyno tystysgrif i'r ysgol am eu cyfraniad.



Casglwyd swm anrhydeddus o £730.30 i Apêl Home from Home Ysbyty Walton. Daeth pennaeth codi arian yr apêl i'r Ysgol i dderbyn sic. Bwriad yr apêl yma yw cynnig lle i aros ar gyfer teuluoedd cleifion. Y gobaith yw y bydd modd aros yno erbyn mis Chwefror eleni. Derbyniwyd llythyr ganddi yn diolch am y rhodd.



Ar ddiwrnod olaf Tymor y Nadolig cafodd y disgyblion gyfle i ymuno yn Hwyl yr Wyl wrth wisgo eu dillad eu hunain neu siwmperi Nadoligaidd. Roedd pob plentyn yn talu dirwy o

bunt a llwyddwyd i gasglu £327. Roedd y gweithgaredd yma i gefnogi Llio Dudley, cyn-ddisgybl o'r ysgol sy'n cael triniaeth dialysis ac yn gobeithio cael trawsblaniad yn fuan.

Ddiwedd y tymor ffarweliwyd â Mrs. Delyth Humphreys, Pennaeth yr Adran Gerdd. Bu Mrs. Humphreys yn dysgu yn Ysgol Eifionydd ar dros dair blynedd ar ddeg. Dymunir yn dda iddi yn ei swydd fel darlithydd ym mhrifysgol Cymru, Bangor. Gweithiodd yn galed gan roi cant y cant i bob ymarfer, perfformiad a chynhyrchiad.

Gweithgareddau 5x60

Chwaraewyd gêm rygbi gyfeillgar rhwng genethod Bl.7, 8 a 9 Ysgol Eifionydd ac Ysgol y Berwyn. Y Berwyn a orfu o 15 i 10 y tro yma. Gobeithir trefnu gêm arall rhwng y genod yn ystod y tymor yma.

Cyngor Ysgol

Yn ddiweddar bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn helpu i sicrhau bod holl wersi Ysgol Eifionydd yn wych. Cafwyd trafodaeth ym mhob dosbarth cofrestru ar "Beth oedd yn gwneud athro a gwers dda?" cyn i holl aelodau'r Cyngor gasglu a chrynhoi'r prif negeseuon. Penderfyniad disgyblion Eifionydd oedd bod y gwersi gorau yn:

- Cynnwys llawer o amrywiaeth ac elfennau gweithredol,
- yn dilyn patrwm da o amrywiaeth o wythnos i wythnos,
- yn rhoi dewis i'r disgyblion ar ddechrau'r uned ynglŷn â pha dechnegau hoffent eu defnyddio i ddysgu'r gwersi e.e. drama, gwaith grŵp, cadair goch, cwis ac yn y blaen.

Rhannwyd y wybodaeth gyda'r athrawon mewn hyfforddiant mewn swydd oedd yn canolbwyntio ar y maes pwysig yma.

Ymweliad Technocamps â'r Ysgol - ar yr 11eg o Ragfyr cafodd disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 brofiad o rwydweithio 'Raspberry Pi' er mwyn hybu sgiliau cyfrifiadurol a chael profiad o dechnoleg newydd.

